Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
CHWEFROR 2010

DYDDIAD	Nos Fercher, 17eg Chwefror
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Cae'r Gors, Rhosgadfan
AELODAU'N BRESENNOL	Meurig Williams, Neal Williams, Gwilym V.Thomas, Gwilym L.Williams, Nerys Evans
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Aeron M.Jones, Bethan Williams (clerc)

1. **Croeso**

2. **Ymddiheuriadau**
   Jason Hunt, Elin Evans, Huw Williams

3. **Datgan Buddiant**
   Aeron M.Jones – cynllunio

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion Ionawr fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Pryniant tir Mynwent Cefnfaes – nododd y clerc fod cynnig ffurfiol am £10,000 wedi'i anfon i Carter Jonas.
   b. Parcio ger Bro Wyled/Ysgol Rhostryfan – clerc wedi cael cyfarfod efo Alun Ffred Jones AS ar y safle. Nododd ei fod yn gefnogol i'n cais i newid y darn gwellt glas yn safleoedd parcio, ac y byddai'n danfon nodyn i Gyngor Gwynedd.
   c. Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Cyfreithiol – gorchymyn gwahardd a chyfyngu aros – ffordd hebio Tai Cadfan. Bwriad i roi llinellau melyn ger y gysgodfan bysiau ym Mhenyffridd.
   d. Ymateb Meirion Williams, Cyngor Gwynedd i sylwadau ynglyn â phriffyrdd: brigyn mawr wedi torri ar goeden ger Tan Rhiw – Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r broblem ac wedi gofyn i ni adael y mater iddyn nhw; giât mochyn ar lwybr rhwng Ffridd Foty a Cae Haidd Bach angen sylw - clerc wedi siarad efo Gerallt Jones, swyddog llwybrau, ac mae yntau'n ein sicrhau fod y giât yn ddiogel, clerc i fynd yn ôl ato eto i ofyn am giât mochyn newydd; dwr ar y ffordd rhwng Bryn Bethel a Capel Wesla – Cyngor Gwynedd wedi cysylltu efo BT er mwyn iddynt ddelio â'r mater; brigiau ar ochr y ffordd rhwng Bryn Bethel a Pengroeslon – Steven, arolygwr yn nodi nad oes problem yma; cwynion fod gwair yn cael ei daflu dros y clawdd dros y ffordd i Awelfryn a Haulfryn a bod y gwair yn blocio draeniau ac ati, ac yn flêr ar y ffens – Meirion Williams yn delio gyda'r mater; cwynion fod llwybr ger Cae Main yn fudr iawn oherwydd fod ffermwr yn bwydo'i geffylau ar ochr y llwybr ac o'r herwydd mae baw yn dod drosodd i'r llwybr ac i'r afon; llwybr rhwng Dolydd a Hen Gastell – angen giât mochyn newydd. Clerc wedi cysylltu efo'r swyddog llwybrau, ac mae cynllun ar waith.
   e. Cwynion wedi dod i law ynglyn â diffyg llogi pobl leol i weithio ar safle'r BBC yn Tal Braich, Rhosgadfan. Fodd bynnag, daeth sawl adroddiad pellach yn nodi fod

sawl cwmni lleol wedi cael ymholiadau ac yn gweithio ar y safle.
f. Cwynion fod cynllun i helpu ystlumod yn cael ei weithredu ar ffordd rhwng y Goat a Groeslon. Cwynion fod hyn yn digwydd a'n bod dal i ddisgwyl arwyddion yn hysbysu gyrrwyr fod cerddwyr yn croesi'r ffordd yma.
g. Hysbysfwrdd yn Sgwar Rhostryfan – penderfynwyd gofyn wrth Meirion Williams, Cyngor Gwynedd os y byddai'n addas i ni ei leoli ar y gongl dros ffordd i'r lleoliad presennol.

6. **Derbyn Adroddiadau:**.

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	17227.07
Cyfri Siec:	177.37
CYFANSWM	17,404.44

Taliadau:

Cyflog/costau clerc mis Chwefror	476.05
Cyllid y Wlad	66.00
John Roberts – archwilio cyfrifon	55.50
Wyn Williams	278.00

Cafwyd pris gan y Prisiwr Ardal, ond mae'r clerc yn anfodlon gan fod y pris llawer uwch na'r amcanbris. Swyddfa yn mynd i ddanfon anfoneb newydd.

9. **Materion Cynllunio**
CO0A/0380/24/YA & CO7A/0696/24/YA – Tyddyn Derwen, Dinas - aelodau eisoes wedi dagtan eu gwrthwynebiad i'r datblygiad yma.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO10/0039/24/LL
Ty Crwn, Rhosgadfan – cais i agor ffenestr ac edrychiad cefn ynghyd a chodi sied 'lean-to' yng nghefn yr eiddo
C10A/0071/24/LL
Llain o dir yn Saron - cais llawn i godi adeilad amaethyddol.
Eisoes wedi'u caniatau:

CO9A/0530/24/MG
Safle ger Glanrhyd Isaf, Dinas – caniatad ar gyfer materion a gadwyd yn ôl o dan CO5A/0765/24/AM ar gyfer un annedd
Bryn Meddyg, Rhosgadfan – siediau a polytunnel

Wedi'i dynnu'n ôl:
CO9A/0587/24/LL
Tyddyn Derwen, Dinas – newid defnydd safle ac adeiladau presennol ar gyfer gwerthu offer peiriannau ac offer amaethyddol ynghyd a newidiadau i'r fynedfa bresennol.

10 **Gohebiaeth:**

a. Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Grwp Tirlenwi Cilgwyn – cofnodion
b. Cyfadran Datblygu - holiadur cynlluniau ardal
c. C&M Pritchard (Cynnal a Chadw a thirlunio) – cynnig eu gwasanaeth
d. Sefydliad Aren Cymru – taith gerdded - Mawrth 28, 2010
e. Cyngor Iechyd Cymuned – datganiad terfynol ar strwythurau Cynghorau Iechyd Cymuned
f. Cynulliad – adolygu'r rheoliadau ar lwfansau aelodau
g. Cynulliad – ymgynghoriad ar reoliadau cyfrifon ac archwilio Cymru
h. Cynulliad – benthyca gan Gynghorau Tref a Chymuned
i. NSPCC – codi ymwybyddiaeth o'r help sydd ar gael – rhoi posteri yn yr hysbysfyrddau

Cyngor Gwynedd – cynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus – llythyr yn ein hysbysu fod toriadau o ran cynnal a chadw i rai llwybrau yn yr ardal, a bydd Cyngor Gwynedd ond yn talu am gynnal a chadw y rhai sydd wedi'u blaenoriaethu gennym.

11 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. AMJ – angen lloches yn Tanrallt – clerc angen atgoffa Cyngor Gwynedd.
b. MW – polyn ger y grid gwartheg wrth Ael y Bryn wedi symud.
c. NW – manhole BT yn Rhosgadfan, tarmac wedi malu.
d. NE – angen checio pwy sydd biau'r darn tir dros y ffordd i Penyceunant, er mwyn gofyn os ydy'r lle'n ddiogel.
e. MW – blas drwg ar y dwr tap yn ddiweddar, angen holi'r Bwrdd Dwr be ydy'r broblem.
f. MW – problem baw cwn ger Ysgol Rhosgadfan, cysgodfan Penyffridd etc.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm